# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 21 Medi 2020

Amser: 09.30 - 12.13

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6467

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS |
| Tystion: | Jeremy Miles AS, Y Gweinidog fydd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd<br>Dr Robert Parry, Llywodraeth Cymru<br>Chris Warner, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Craig Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Manon Huws (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer y Farchnad Fewnol a gwaith craffu cyffredinol ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gadael yr UE: Sesiwn dystiolaeth

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol ar gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer y Farchnad Fewnol, a materion eraill ynghylch deddfwriaeth sy'n ymwneud â gadael yr UE.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 3.1 SL(5)606 - Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(5)605 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.2 SL(5)607 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.3 SL(5)602 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.4 SL(5)616 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. At hynny, nododd y Pwyllgor fod yr offeryn wedi ei ddirymu gan y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020, a osodwyd gerbron y Senedd ar 18 Medi 2020.

## 5 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 5.1 SL(5)574 – Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i'w adroddiad ar Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig (Cymru) 2020.

### 5.2 SL(5)592 – Rheoliadau Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i'w adroddiad ar Reoliadau Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2020.

### 5.3 SL(5)603 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 6 Is-ddeddfwriaeth sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

### 6.1 SL(5)613 – Hysbysiad Addasu Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2020

Trafododd y Pwyllgor yr Hysbysiad a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau a nodwyd o dan Reol Sefydlog 21.7.

## 7 Offerynnau statudol y mae angen i'r Senedd gydsynio â hwy (Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol)

### 7.1 SICM(5)29 - Rheoliadau Gwastraff (Economi Gylchol) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ac roedd yn fodlon arno. Nododd y Pwyllgor y dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 29 Medi 2020, a chytunodd i ystyried ei adroddiad drafft yn y cyfarfod nesaf.

## 8 Papurau i'w nodi

### 8.1 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Amaethyddiaeth

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

### 8.2 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol: Adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach.

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol. At hynny, nododd y Pwyllgor y llythyrau gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol at yr Arglwydd Lefarydd a'r Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach.

### 8.3 Llythyr gan y Prif Weinidog: Craffu ar reoliadau sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd - Protocol rhwng Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Senedd Cymru

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog.

### 8.4 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Cytundeb Rhyng-sefydliadol - Cyfarfodydd Gweinidogol Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 10 Cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer y Farchnad Fewnol a gwaith craffu ar ddeddfwriaeth sy’n ymwneud â gadael yr UE: Trafod y dystiolaeth

Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer y Farchnad Fewnol, a gwaith craffu ar ddeddfwriaeth yn ymwneud ag ymadael â'r UE.

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Pysgodfeydd: Trafod yr adroddiad drafft

Ystyriodd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar yr Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Pysgodfeydd a chytunodd i gadarnhau'r newidiadau terfynol y tu allan i'r Pwyllgor. Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol, sef 24 Medi 2020.

## 12 Y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) a chytunodd i drafod drafft arall yn y cyfarfod nesaf.